Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Gweithio gydag eraill i gyflawni rhagoriaeth wrth ddarparu cymorth cyfreithiol

# Cynllun Iaith Gymraeg

## Adroddiad 2018/19

Tachwedd 2019

# Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg 2018/19

## Rhagarweiniad

1. Dyma adroddiad yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar weithrediad ei Chynllun Iaith Gymraeg (CIG) yn seiliedig ar weithgareddau a gyflawnwyd yn y cyfnod o mis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019.

2. Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn unol â'r fframwaith ar gyfer monitro ac adrodd a gytunwyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Medi 2010.

### Cydymffurfio â CIG

*Tendrau*

3. Mae ein contractau gyda darparwyr yn cynnwys gofyniad yng nghyswllt darparu gwasanaethau Cymraeg i gleientiaid cymorth cyfreithiol yng Nghymru fel mater o drefn. Bu inni roi contract sifil newydd ar waith ym mis Medi 2018 ac rydym wedi rhoi rhybudd y bydd y contract troseddol presennol yn cael ei ymestyn am flwyddyn arall hyd at mis Mawrth 2021. Rydym yn parhau i gynnal y gofyniad hwn mewn contractau cymorth cyfreithiol ar gyfer darparu cyngor i'r cyhoedd.

*Cyhoeddiadau*

*4.* Mae'r holl ddeunydd a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol 2018-19 ac Adroddiad Gwaith Achos y Cyfarwyddwr Cymorth Cyfreithiol 2018-19. Mae copïau o'r rhain ar gael ar-lein.

### Dangosyddion Perfformiad
### DP 1 Gwasanaethau Rheng Flaen

*Staff Dwyieithog*

5. Yn y 12 mis diwethaf rydym ni wedi recriwtio dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i gymryd lle dau siaradwr Cymraeg i gymryd lle dau siaradwr Cymraeg a oedd wedi gadael. Ar hyn o bryd mae gennym pedwar aelod o staff dwyieithog ac un aelod o staff sy'n ddysgwr Cymraeg da sydd wedi'u neilltuo'n bwrpasol i'n gwasanaethau Cymraeg. Mae Rheolwr Gweithrediadau y swyddfa yng Nghaerdydd hefyd yn ddysgwr Cymraeg lefel uwch. Mae hyn cyfwerth â 25% o'r tîm gwasanaethau cwsmeriaid yng Nghymru. Maent yn cyflawni dyletswyddau rheng flaen (ffôn, gohebiaeth, ceisiadau) ac yn cynorthwyo gyda phrawfddarllen a

chyfieithu ad hoc. Hefyd, mae gennym ddau aelod o staff dwyieithog mewn adrannau gwahanol o fewn ein swyddfa yng Nghaerdydd sydd hefyd yn gallu cynorthwyo gyda'r gwasanaethau Cymraeg os bydd angen.

6. Rydym yn parhau i gael adborth cadarnhaol gan ein darparwyr ynghylch ein gwasanaethau rheng flaen Cymraeg.

*Ceisiadau am Gymorth Cyfreithiol Troseddol*

7. Ers 2014 rydym ni wedi prosesu'r holl geisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol, gwaith a oedd yn arfer cael ei wneud gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM). Mae'r broses ymgeisio yn cynnwys ffurflen gais Cymraeg ar-lein i sicrhau bod ein cleientiaid yn gallu parhau i wneud cais am Gymorth Cyfreithiol Troseddol yn y Gymraeg a chael yr holl ohebiaeth gysylltiedig yn Gymraeg os ydynt yn dewis hynny. Yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2019 cawsom un cais Cymraeg.

*Galwadau ffôn*

8. Rydym yn cadw cofnodion misol o'r galwadau ffôn a gawn ar y llinell gymorth Cymraeg. Mae ein dadansoddiad yn dangos rhwng mis Ebrill 2018 a diwedd mis Mawrth 2019, cawsom 165 o alwadau, cynnydd o 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod yr un cyfnod, cawsom 1.3% yn llai o alwadau i'r llinell gymorth Saesneg.

*Cymorth Cyfreithiol Sifil*

9. Ynghyd â chofnodi manylion sgyrsiau dros y ffôn, rydym yn parhau i recordio ein sgyrsiau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, cawsom 101 o geisiadau trwy ein system CCMS (ein system ar gyfer rheoli cymorth cyfreithiol sifil) yn Gymraeg a 18 o negeseuon e-bost. Byddwn yn parhau i fonitro'r holl drafodion trwy gyfrwng y Gymraeg.

| | 2017 -18 | 2018 -19 |
|---|---|---|
| Negeseuon e-bost a gafwyd | 10 | **18** |
| Ceisiadau am ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg (CCMS) | 163 | **101** |

## DP 2 Darparu gwasanaethau trwy Drydydd Partïon

*Gwasanaethau wyneb yn wyneb*

*10.* Mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau rheng flaen yn cael eu darparu trwy ddarparwyr dan gontract. Mae contractau cymorth cyfreithiol gyda darparwyr wyneb yn wyneb yn cynnwys gofynion penodol i sicrhau bod darparwyr yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yng Nghymru. Mae cwmnïoedd yn cydymffurfio trwy gyflogi siaradwyr Cymraeg neu rhoi gweithdrefnau mewn lle i ddarparu gwasanaeth Cymraeg trwy gyfeirio

achos at ddarparwr Cymraeg o fewn yr un maes caffael lle bo darpariaeth o'r fath ar gael.

11. Mae Rheolwyr Contractau yn parhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn rhagweithiol fel rhan o'r gweithgareddau darparwyr blynyddol yng Nghymru.

12. Rydym ni wedi adolygu trefniadau gyda'n holl ddarparwyr yng Nghymru i ganfod pa staff sydd ganddynt sy'n siarad Cymraeg a'r galw am wasanaethau Cymraeg ar gyfer pob darparwr. Rydym yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg, fel ein llinell ffôn a'n ffurflenni dwyieithog (lle bo'n berthnasol).

13. Bu i arolwg o ddarparwyr yng Nghymru adnabod bod dros 60% ohonynt yn cyflogi un neu fwy o siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhai nad ydynt yn cyflogi siaradwr Cymraeg ar hyn o bryd i gyd (heblaw am un) wedi'u lleoli yn Ne Dwyrain Cymru, lle mae'r galw am wasanaethau Cymraeg yn is. Mae darparwyr eraill yn yr ardal hon yn cyflogi siaradwyr Cymraeg ac felly ystyriwn fod yna ddigon o ddarpariaeth amgen ar gael. Mae ein arolwg nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer 2020.

14. Rydym wedi defnyddio Twitter i ymateb i ymholiadau gan ddarparwyr yn Gymraeg.

*Gwasanaethau Ffôn*

15. Rydym yn parhau i ariannu'r Gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA), sef llinell gymorth genedlaethol sy'n darparu cyngor arbenigol am Ddyled, Addysg, Tai, materion Teulu a Gwahaniaethu. Mae cleientiaid sy'n ffonio'r gwasanaeth yn gallu dewis cyfathrebu trwy'r Gymraeg. Cafodd contractau eu hail-dendro a daethant i rym ym mis Hydref 2019, yn cynnwys gofynion llymach ar gyfer darpariaeth Gymraeg. Mae gan y contractwr newydd tri gweithiwr sy'n siarad Cymraeg i sicrhau darpariaeth ar gyfer y Gymraeg.

16. Mae gwasanaeth ar-lein yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol 'Gwiriwch os y gallwch gael cymorth cyfreithiol' ar Gov.UK ar gael yn Gymraeg ac mae'n cefnogi cleientiaid i benderfynu p'un a yw eu problem yn syrthio o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol ac os ydynt yn debygol o fod yn gymwys i gael arian cyhoeddus. Os yn briodol, bydd aelod o staff Cyngor Cyfreithiol Sifil yn eu ffonio yn ôl, trwy ddefnyddio cyfieithwyr Cymraeg, i symud yr achos yn ei flaen. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio i wella'r ffordd mae ein cwsmeriaid Cymraeg yn cael mynediad at y gwasanaeth hwn trwy Gov.UK.

17. Lle bo cleientiaid yn cael eu dal yn nalfa'r heddlu ac mae angen cyngor cyfreithiol arnynt, gallant wneud cais am gyfreithiwr sy'n siarad Cymraeg pan fydd swyddog y ddalfa yn cysylltu â Chanolfan Alwadau Cyfreithwyr ar Ddyletswydd (DSCC) yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae'r gwasanaeth yn hwyluso'r broses o anfon cyfreithiwr addas i'r orsaf heddlu.

**DP 3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg**

18. Mae amser wedi'i neilltuo i'r holl staff ar gyfer hyfforddiant a datblygu. Rydym yn bwriadu datblygu sgiliau ein dysgwyr Cymraeg uwch ac yn archwilio i gyrsiau addas ar eu cyfer. Rydym hefyd yn parhau i drafod yr holl gyfleoedd dysgu a datblygu gyda'n staff, yn cynnwys p'un a oes yna ddymuniad i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg. Mae'r holl staff yn cael cyfarfodydd un i un rheolaidd lle bydd hyfforddiant a datblygu yn cael eu trafod. Pan fydd unrhyw unigolyn yn dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg, byddwn yn adnabod cyrsiau priodol i fodloni'r angen hwnnw.

**DP 4 Technoleg Gwybodaeth**

19. Mae ein system TG ar gyfer materion cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei defnyddio gan 1600 o ddarparwyr cymorth cyfreithiol, yn cynnwys oddeutu 250 o siambrau bargyfreithwyr. Mae ohebiaeth ac unrhyw ddatganiadau lle mae angen llofnod y cleient ar gael yn y Gymraeg.

**DP 5 Gweinyddu'r Cynllun**

20. Mae ein Tîm Ysgrifenyddiaeth yn y Ganolfan Gorfforaethol yn parhau i fod yn gyfrifol dros ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod cyfnod adrodd 2018/19.

21. Nid ydym wedi cael cwynion am ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod 2018/19.

*Casgliad*

22. Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod wedi gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg yn llwyddiannus eleni ac rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon uchel.

**Jane Harbottle**
**Prif Weithredwr, Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth, f3.0, oni bai lle nodir fel arall. Ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 i weld copi o'r drwydded hon

Lle rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.